# Cais i newid fformat Radio Ceredigion

## Ymateb i: Ymgynghoriad Ofcom ar gais Nation Radio (Radio Ceredigion) – Cais i Newid Fformat

## Gan: Rhanbarth Ceredigion Cymdeithas yr Iaith

## Dyddiad: 10 Mai 2019

Fel preswylwyr Ceredigion nodwn nad yw 'Radio Ceredigion' fel y mae nac o dan y cytundeb newydd nac o dan y cytundeb arfaethiedig yn gwasanaethu pobol Ceredigion. Nid yw'r un o'r trwyddedau yn adlewyrchu natur unigryw pobol Ceredigion ac nid ydynt yn hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr Ceredigion.

Mae'r diffyg unrhyw sôn yn yr ymgynghoriad am iaith pobol Ceredigion yn warthus, nodir mai gwendid Ofcom yw hyn oherwydd ei y diffyg gofyniad am hynny gan Ofcom.

Galwn ar i Ofcom gyflwyno gwaith ymchwil parthed yr hyn yr ydynt yn ei ddeall am fuddiannau dinasyddion a defnyddwyr Ceredigion er mwyn trio esbonio'r sarhâd arnom fel pobol gyda'r penderfyniad i hepgpor unrhyw sôm am ein hiaith fel rhan o'r drwydded hon.

Nodir yma sawl ymgais i gamarwain parthed nodi'r drwydded hon fel rhywbeth na fyddai yn cyfyngu ar amrywiaeth perthnasol I bobol yn byw yn yr ardal, pan mae'r ffeithiau yn dweud yn wahanol. Mae Ofcom yn honni bod y drwydded yn 'bodloni maen prawf (b)' sef 'na fyddai'r gwyriad yn cyfyngu ar amrywiaeth y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynol perthnasol I bobl sy'n bwy yn yr ardal neu'r gymdoaeth y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer' ond mae' nodwn bod, o ran oriau wedi eu gwneud yn lleol yn newid o 'oleiaf 21 awr y diwrnod (rhaid cynnwys amser brecwast ac amser brecwast ar benwythnosau)' yn mynd i newid i 'o leiaf 7 awr y diwrnod yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener. O leiaf 4 awr yn ystod y dydd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul'. Nodwn fod hyn yn leihâd o 147 awr yr wythnos wedi ei wneud yn lleol i 43 awr yr wythnos wedi ei wneud yn lleol. Nid yw hyn yn bodloni yr amodau y cyfeirir atynt.

Galwn ar i Ofcom gael ei ddiddymu fel corff sydd yn gyfrifol am ddarlledu yng Nghymru ac i'r cyfrifoldeb dros ddarlledu yng Nghymru gael ei ddatganoli i'r genedl hon.